arall ydy'r gyfrinach at fywyd hapusach - ond dweud helô wrth bobl eraill.



Felly, y tro nesaf y byddwch chi'n pasio trwy'r pentref, galwch heibio i'r siop, cefnogwch ddigwyddiad lleol, galwch heibio i'r dafarn, ymunwch â chlwb.

Oherwydd tydy pentrefi ddim yn aros yn arbennig yn ddamweiniol. Maen nhw'n aros yn arbennig gan fod pobl gyffredin yn parhau i wneud pethau bach, caredig, bob dydd i'w gilydd.

A bydded i Ddolwyddelan barhau i wneud hynny'n union.

*Wedi'r cyfan, lle arall gall prynu peint o lefrith droi'n sgwrs ugain munud a thri gwahoddiad i wirfoddoli? Hir oes iddo barhau!*

Lloyd C. Mason-Boardman

## CLWB DYDD LLUN

Mae Clwb Dydd Llun Dolwyddelan yn cyfarfod yn y Pafiliwn ar y trydydd dydd Llun o'r rhan fwyaf o fisoedd, heb law am fis Gorffennaf pan fyddwn ni'n mynd am ddiwrnod allan.

Mae ein cyfarfodydd yn dechrau tua 2 o'r gloch – ac yn gorffen pan fyddwn ni'n teimlo felly.

Rydym ni'n aml yn cael siaradwr gwadd atom, fel arall rydym ni'n diddanu ein hunain gyda chwis hwyl neu sgwrs. Yn y gorffennol, mae ein siaradwyr wedi ein diddanu ar bynciau mor amrywiol fel turnio, brodwaith stwmp, Affrica a'r Men's Shed.

*Bydd paned a bisged, cyfeillgarwch a chyfle i sgwrsio a chwerthin bob tro yn eich aros.*

Yn y gorffennol mae ein tripiau blynyddol wedi cynnwys taith mewn cwch o amgylch Ynys Seiriol, ymweld ag Amgueddfa'r 1950au yn Ninbych a thaith o amgylch Ynys Môn.

**Mae croeso mawr i rai newydd bob tro.**

John Weedon.